**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Rhagfyr 2025 |

---

**PWNC**

Eitem 6 :SEFYDLU BWRDD RHEOLI MAETHOLION

---

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd sefydlu, a chyfranogiad y Cyngor i'r, Bwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer yr Afon Gwyrfai yn unol a'r cylch gorchwyl yn Atodiad 1.

Enwebwyd Pennaeth Adran Amgylchedd i gynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd newydd a dirprwywyd yr hawl i'r Pennaeth gadarnhau cynrychiolaeth swyddogion y Cyngor ar y Bwrdd ac i ymgymryd ac unrhyw newidiadau ansylweddol i'r Cylch Gorchwyl.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae ffurfio Bwrdd Rheoli Maetholion (BRM) yn hanfodol er mwyn cydlynu camau gweithredu strategol i leihau llygredd maetholion mewn dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Bydd y BRM yn darparu fforwm cydweithredol aml-asiantaeth i baratoi Cynllun Rheoli Maetholion. Mi fydd hefyd yn galluogi y partneriaid ar y bwrdd i adnabod a gweithredu mesurau tymor byr, canolig a hir i adfer a chynnal statws cadwraeth ffafriol yr ACA sef yr Afon Gwyrfai yn yr achos yma.

Mae cylch gorchwyl y bwrdd wedi'u gynnwys yn Atodiad 1. Mae yn seiliedig ar y dull a ddefnyddir gan Fyrddau Rheoli Maetholion eraill yng Nghymru. Mater i'r bwrdd arfaethedig fydd cytuno ar eu ffurf derfynol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Rhagfyr 2025 |

## PWNC

Eitem 7 : CYLLIDO GWAITH DIOGELU ADEILAD Y CORBETT ARMS, TYWYN

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y defnydd o £1.5 miliwn o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor er mwyn cyllido gwaith i ddiogelu adeilad y Corbett Arms yn Nhywyn.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn ariannu'r gwaith angenrheidiol o ddiogelu adeilad y Corbett Arms, Tywyn a hynny er mwyn diogelu'r cyhoedd a'r adeilad ei hun fel adeilad rhestredig Gradd II.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | **16 Rhagfyr 2025** |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **31 Rhagfyr 2025** |

## PWNC

Eitem 8: TWF - SIARTER Y GYMRAEG YN Y GWAITH

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd y Cabinet ar ran y Cyngor fel cyflogwr i fabwysiadu Twf – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith, Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru), ar y cyd â chynrychiolwyr lleol undebau Unsain, GMB ac Unite.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn galluogi'r Cyngor i fabwysiadu'r Siarter yn ffurfiol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Rhagfyr 2025 |

---

**PWNC**

Eitem 9: ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2024/25.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar gyfer adlewyrchu ar y strategaeth gorfforaethol yn y maes allweddol hwn i'r dyfodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Rhagfyr 2025 |

## PWNC

Eitem 10: ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad a chymeradwywyd yr argymhellion.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel bod gan aelodau drosolwg hanfodol o'r prif faterion iechyd a diogelwch a gododd yn ystod 2024/25.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | **16 Rhagfyr 2025** |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd** | **31 Rhagfyr 2025** |

## PWNC

Eitem 11: ADRODDIAD 6 MIS CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2025/26

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr adroddiad a chynhigiwyd unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol am berfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion yn briodol ac yn amserol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Hynny er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn fodlon gyda'r perfformiad dros y cyfnodau dan sylw.

Cyflwynir dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol, sy'n fesur o berfformiad y Cyngor yn y cyd-destun hwn am y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 30 Medi 2025 ynghyd â gwybodaeth gymharol am y blynyddoedd blaenorol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Rhagfyr 2025 |

---

**PWNC**

Eitem 12: ACHOS BUSNES AMLINELLOL CARTREF GOFAL PENRHOS

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol yn Atodiad 1, yn ddarostyngedig i hynny,

Awdurdodwyd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyflwyno’r Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru i geisio am £16.4miliwn o arian Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) i greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle Penrhos, mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Llawn.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi Grantiau Cyfalaf er mwyn hybu integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac i gefnogi gwaith ar ail fodelu'r sector gofal. Byddai arian o'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi cyfle i'r Cyngor wneud cais am £16.4m o arian i ariannu'r datblygiad yma. Eglurwyd fod trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chael mynediad at yr arian yn amserol.

Nodir bod cyflwyno'r achos busnes amlinellol yn gam allweddol i'r prosiect yma, a'r cam nesaf yw i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei brosesu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo, a bydd Achos Busnes Llawn i ddilyn.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Rhagfyr 2025 |

**PWNC**

Eitem 13: GWELLIANNAU SYLWEDDOL I YSGOL TRYFAN - CYNYDDU CYLLIDEB CYFALAF Y PROSIECT

**PENDERFYNIAD**

Rhoddwyd caniatâd y Cabinet i gynyddu cyllideb y prosiect i wneud gwelliannau sylweddol i adeiladau a safle Ysgol Tryfan ym Mangor er mwyn cyfarch costau chwyddiant a chynnydd cyffredinol mewn costau deunyddiau adeiladu ers sefydlu cyllideb wreiddiol y prosiect yn 2018, gan wireddu hynny drwy drosglwyddo £1.96m o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cyfarch cyfanswm y costau a ragwelir i wireddu'r prosiect yn Ysgol Tryfan.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn cyflwyno'r Achos Busnes ASS (Cam 1), bu i'r Tîm Dylunio lunio amcan gostau ar gyfer cyflawni'r prosiect yn unol â'r briff, gydag amcan cychwynnol y costau hynny oddeutu £30m.

Yn dilyn hynny, bu cydweithio rhwng y Tîm Dylunio, y Tîm Datblygu Eiddo, yr Adran Addysg ac Ysgol Tryfan i ystyried opsiynau posib ar gyfer addasu'r briff a lleihau costau. Yn dilyn gwaith pellach ar amcan gostau'r opsiynau, rhagwelir yr angen i gynyddu cyllideb y prosiect i £23.6 miliwn.

Bydd y gyllideb ddiwygiedig yn galluogi cynyddu capasiti'r ysgol i 650, trwy greu adeilad newydd ynghyd â gwelliannau ac addasiadau i adeiladau eraill, ynghyd â gweithio tuag at gwrdd â thargedau carbon Llywodraeth Cymru.

Pe byddai cynnydd yng nghyllideb cyfalaf y prosiect, byddai angen i Gyngor Gwynedd gyfarch 35% o'r gyllideb ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i neilltuo £6.3m fel arian cyfatebol ar gyfer gwireddu'r prosiect. Pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo cynyddu cyllideb y prosiect i £23.6m, yna byddai angen i'r Cyngor ymrwymo i gyfrannu £1.96m ychwanegol tuag at gostau'r prosiect, sef cyfanswm o £8.26m.

| | Cyllideb sydd ar gael heddiw | Cyllideb sydd ei angen yn ychwanegol | Cyllideb yn dilyn amrywio'r gyllideb |
|---|---|---|---|
| **Cyfraniad Cyngor Gwynedd (35%)** | £6,300,000 | £1,960,000 | **£8,260,000** |
| **Cyfraniad Llywodraeth Cymru (65%)** | £11,700,000 | £3,640,000 | **£15,340,000** |
| **Cyfanswm** | **£18,000,000** | **£5,600,000** | **£23,600,000** |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Rhagfyr 2025 |

## PWNC

Eitem 14: POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd drafft o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd enghreifftiol i ysgolion Gwynedd er mwyn ei gyflwyno i bwrpas ymgysylltu cyhoeddus ( Atodiad 1).

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo drafft o'r Polisi Iaith Addysg sydd wedi'i lunio yn dilyn proses estynedig o ymgysylltu gyda rhanddeiliaid.

Mae cymeradwyo'r drafft yn gam allweddol i alluogi'r Cyngor gynnal ymgysylltiad cyhoeddus pellach cyn adrodd yn ôl i Gabinet ar ganlyniadau'r ymgysylltu a gofyn i aelodau'r Cabinet am benderfyniad i fabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol neu beidio.

Yn ddarostyngedig i fabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol, byddai yn cael ei gyflwyno i bob corff llywodraethu er mwyn iddynt geisio barn cymuned eu hysgol yn gyntaf, ac yna ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu.

Argymhelliad cryf y Cyngor fyddai i bob ysgol fabwysiadu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd a'i weithredu'n llawn fis Medi 2026.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad i’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, ac mae eu hargymhellion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Rhagfyr 2025 |

**PWNC**

Eitem 15: ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYNLLUN DIGIDOL CYNGOR GWYNEDD (CYFNOD 2024/2025)

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd cynnwys a chymeradwywyd cyfrol gyntaf o adroddiadau blynyddol ar Gynllun Digidol Cyngor Gwynedd (2023-2028).

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cynllun Digidol gael ei gymeradwyo gan y Cabinet yn ôl ym mis Tachwedd 2023, gofynnwyd bod swyddogion yn adrodd yn rheolaidd ar y rhaglen waith dros gyfnod y Cynllun. Dyma adroddiad yn adrodd ar ddatblygiad a gweithrediadau hyn o fewn elfennau unigol o'r rhaglen waith.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.